

CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS

CLERC: Tom Jones, 22, Endsleigh Road, Hen Golwyn. LL29 9DT Ffôn: 01492 515999 Sym: 07774 833523
e-bost: clerc@betwsdallanelian.org.uk

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDY YNG NGANOLFAN GYMUNEDOL, BETWS YN RHOS, AM 7.30y.h. NOS LUN, 7fed MAWRTH, 2022.

1. CROESO

Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod.

2. YN BRESENNOL

Y Cynghorydd Irwedd GRIFFITHS (Cadeirydd), a'r Cynghorwyr John EVANS; Tudur W. JONES; Gwyndaf O. ROBERTS; John D. ROBERTS; Goronwy R. WILLIAMS; Bryn JONES; Hefin WILLIAMS.

3. YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr D. Gwyn JONES ac Ifor G. LLOYD (Cynghorydd Sir)

4. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Atgofffer yr aelodau eu bod i ddatgelu bodolaeth a natur unrhyw ddiddordebau personol gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir ar gyfer hynny. Mae'r Cynghorydd Ifor LLOYD wedi dweud ei fod o'n eistedd ar y pwyllgor cynllunio ac felly na all gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau a wneir ar geisiadau sy'n cael eu trafod, ond y gallai ateb cwestiynau'n ymwneud â rheolau cynllunio a pholisïau.

a. Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb gan unrhyw un.

5. MUNUDAU

Cytunwyd i gadarnhau, cymeradwyo ac arwyddo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7fed Chwefror, 2022.

6. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw fater yn codi.

7. CYLLID

a. Adroddiad Misol am y cyfnod dod i ben 20fed Chwefror 2022. Nododd yr aelodau y sefyllfa araiannol a'r adroddiadau banc fel a restrir isod:-

Arian i Mewn	= £0.00
Arian Allan	= £5.00 (Costau Banc - DR)
	= £300.00 (Henoed Llanellian - 200126)
	= £41.00 (Costau Cyfieuthu - 200127)

= £55.80 (Costau Cyflogi - 128)

Cyfrif Cymunedol = £9,444.57

Cyfrif Busnes = £5,551.46

Cytunodd pawb a'r adroddiad yma.

- b. Yn dilyn y drafodaeth yn y pwyllgor diwethaf am fancio ar lein ble y byddai yn haws talu biliau ayyb heb orfod defnyddio sieciau bob tro, a felly hefyd yn arbed y gost o yrru taliadau drwy'r post. Mae'r ffurflenni priodol yn awr wedi ei cwblhau a'i llofnodi. Byddant yn mynd i'r banc yr wythnos hon.

8. GOHEBIAETH

- a. Llythyr gan gwmni Vantage FeeProtect – Yn cynnig yswiriant yn erbyn costau archwiliad gan HMRC. Dyma'r ail lythyr a dderbynwyd ac agwedd braidd yn gryf ynddo. Roedd penderfynwyd nad oedd ei angen wedi ei wneud yn y pwyllgor diwethaf. Roedd y Clerc wedi cysylltu ac Aston Hughes ynglun a'r peth ac yr oeddynt hwythau o'r farn nad oedd ei angen. Penderfynwyd eto nad oedd ei angen, a'r clerch i ysgrifenny y penderfyniad hynny i'r cwmni.
- b. Epost wedi ei dderbyn gan Aloma Wheway ynglun a chyflwr rhai o'r manau cyhoeddus yn y pentre. Y Clerc i ymateb i'r cynnwys yn ol trafodaeth a welir o dan Unrhyw Faterion Eraill.
- c. Llythyr gan Un Llais Cymru yn gofyn os oeddem am ail-aelodi am £163.00 am y flwyddyn. Penderfynwyd ail-aelodi.

9. GRANTIAU

Dim ceisiadau newydd wedi dod i law.

10. CYNLLUNIO

- a. 12.21/12 (iv) 0/49181 Cymeradwyo amod rhif 4 (Tirlunio Caled a Meddal) ar ganiatâd cynllunio 0/44848 (Adeiladu annedd, mynedfa a gwaith peirianyddol cysylltiedig): Plot 5 The Granary Cottages Betws Yn Rhos Abergele Conwy - Mr Barry McDowell. Bu i'r cais yma ei drafod mis diwethaf ac er nad oedd gwrthwynebiad i'r cais fe roedd poeni am enw saesneg y lleoliad. Roedd y Clerc wedi gyrru ymholiad i'r Cyngor Sir ac yn awr yn disgwyl ateb gan yr Adran Drwyddedu. Yn dal i ddisgwyl ateb gan yr Adran Drwyddedu.
- b. 0/48681 Mr Enfys Parry, Oak Tree Farm, Ffynhonnau Road, Betws yn Rhos, Abergele LL22 8AB: Cadw a defnyddio carafan statig fel llety gwyliau – Mae hwn yn ail gais yn dilyn gofyniad mwy o wybodaeth gan yr Adran Gynllunio. Yn ol pob golwg mae'r cais yma wedi ei ail gyflwyno heb ddim newidiadau. Penderfynwyd disgwyl am sylwadau yr Adran Gynllunio. Dal i ddisgwyl sylwadau yr Adran Gynllunio.

- c. 0/49368 Ymgeisydd: Mr Mark Blissitt Cynllun: Adeiladu 2 adeilad amaethyddol (Cymeradwyaeth Ymlaen Llaw Amaethyddol) Safle: Aelwyd Uchaf Cill Llidad Road Betws Yn Rhos Conwy LL22 8AG – Mae achosion eraill ynglun a chynllunio ynghlwm a’r safle yma ac yn destyn ymchwiliad gan yr Adran Gynllunio a felly gwell disgwyl am ei canlyniadau nhw. Dal i ddisgwyl canlyniadau’r Adran Gynllunio.
- d. Cyfeirnod: 0/49427 Ymgeisydd: Mr & Mrs A Jones
Cynllun: Estyniad deulawr i annedd
Safle: Ty'n-y-Caeau Uchaf, Betws Road, Abergele LL22 8AD
Nid oedd gwrthwynebiad.
- e. Cyfeirnod: 0/49436 Ymgeisydd: Mr Dave Jones
Cynllun: Adeiladu adeilad amaethyddol i storio gwair ac ati ger y sied wartheg presennol (Adeilad Da Byw)
Safle: Bryn Y Maen Farm Llanrwst Road Bryn Y Maen Colwyn Bay Conwy LL28 5EW
Nid oedd gwrthwynebiad.

11. MATERION ARCHWILIAD MEWNOL AC ALLANOL

Derbynwyd llythyr gan yr Archwilwyr Mewnol sef JDH Business Services Ltd i ein atgoffa y bydd rhaid dechrau ar yr archwiliad mewnol cyn hir. Maent yn codi y pris i £225 am y flwyddyn 2021/22. Penderfynwyd aros gyda’r cwmni hwn am y tro. Bydd rhaid nodi’r codiad ar gyfer y Praesept flwyddyn nesaf.

12. MATERION CYNGOR SIR CONWY A'R CYNGHORYDD IFOR LLOYD

Nid oedd y Cynghorydd Sir Ifor Lloyd yn bresennol yn y pwyllgor.

13. GOSOD PLAC – CYFLAWNIAD Ms GEORGIA WILSON

9.21/6(i) Dywedodd y Cerc y byddai’r plac newydd yn barod diwedd yr wythnos. Cafwyd trafodaeth am pryd i roi y plac i fyny yn y ganolfan chwaraeon a pryd iw ddad-orchuddio. Penderfynwyd ei roi i fyny yn Mis Mehefin a’i ddad-orchuddio ar ddiwrnod dathlu y Jiwbili fel rhan o’r digwyddiadau.

14. JIWBILI PLATINWM Y FRENHINES

01.22/15 (ii). Dathliad/Jiwbili Platinwm Y Frenhines – 2 Mehefin 2022. Yn dilyn y drafodaeth yn ystod y pwyllgor diwethaf a’r penderfyniad i blannu coeden, awgrymwyd y byddai Monkey Puzzle Tree (Chilean Pine) yn ddelfrydol iw phlannu yn Betws yn Rhos, ac i hyn gymeryd lle ar ddiwrnod dathlu y Jiwbili fel rhan o’r digwyddiadau. Hefyd i blant yr ysgol gymeryd rhan yn y plannu. Penderfynwyd rhoi swm o £250 ar un ochor ar gyfer hyn ac yr un swm ar gyfer gwneud yr un fath yn nigwyddiad Jiwbili Llanellian yn Rhos. Roedd y Cynghorydd Bryn Jones yn hapus i archwilio cost a ble i gael gafael ar goeden ‘Monkey Puzzle Tree’.

15. RHEOLIADAU a CHYRSIAU i GYNGHORWYR a CHLERCOD

01.22/15 (iv). Rheoliadau Cyngorau Cymuned Cymwys (Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol) (Cymwysterau Clercod) (Cymru) 2021. Mae'r cyrsiau hyn ar gael am ddim. Penderfynwyd gadael yr item yma ar yr Agenda ac hwyrach y bydd y cyrsiau o werth i unrhyw gynghorydd newydd a fyddai'n ymuno ar ol yr etholiadau yn Mis Mai.

16. ETHOLIADAU LLEOL

Bydd yr etholiadau lleol yn cymerd lle ar Ddydd Iau y 5ed o Fai 2022. Mae posterau wedi ei rhoi ar fyrddau gwybodaeth Betws yn Rhos a Llanellian yn Rhos a bydd digon o hysbiadau yn y cyfryngau am yr etholiadau. Roedd y Cyngorwyr Irwedd Griffiths, Hefin Williams, Bryn Jones, John Evans, Tudur W Jones John D Robertsa Goronwy R Williams yn barod i ail sefyll. Am fod y Cyngorydd D Gwyn Jones ddim yn y cyfarfod nis gwyddai neb am ei sefyllfa ef. Nid oedd y Cyngorwyr Eifion Evans a Gwyndaf O Roberts am ail sefyll. O achos cyfyngiadau Covid dros y ddwy flynedd ddiwethaf awgrymwyd fod y Cyngorydd Irwedd Griffiths yn aros fel Cadeirydd am ddwy flynedd arall pe bai hyn yn bosib. Roedd y Cadeirydd yn fodlon gwneud hyn. Dywedodd y Clerc y byddai pecynnau gwybodaeth ac enwebu yn cyrraedd yn y dyddiau nesaf. Mae fideo o wybodaeth ar gael i rhywun sydd yn meddwl ymuno a'r Cyngor. Bydd y linc ar gael drwy gysylltu a'r Clerc.

17. UNRHYW FATER ARALL.

- a. 01.22/15 (vi) Yn dilyn pryderon a godwyd yn ystod y Pwyllgor diwethaf am gyflwr rhai o'r ffyrdd lleol yn arbennig ffordd Llanellian o Hen Golwyn. Mae'r Clerc wedi cael gwybodaeth gan CBSC y bydd y ffordd yma yn cael sylw yn fuan yn y flwyddyn ariannol newydd.
- b. Yn dilyn llythyr i CBSC ynglyn a cyflwr y ffynnon ar Ffordd Abergele, Betws yn Rhos gyferbyn a Chapel Hyfrydle. Mae'r Clerc wedi cael gwybodaeth gan y Cyngor nad ydynt yn gyfrifol am y ffynnon hon, ac mai cyfrifoldeb perchennog y ty cyfagos ydyw. Gan fod y ffynnon yn ran hanesyddol y pentre awgrymwyd fod sgwrs iw chael gyda perchennog y ty a gobeithio cael cytundeb o ryw fath i adnewyddu y gwaith cerrig yma.
- c. Ynglun a'r goeden gyferbyn a Neuadd Bentref Betws yn Rhos, sydd fel arfer yn dal rhai o oleuadau'r Nadolig a'r angen ei thocio, mae'r Clerc yn dal i ddisgwyl ateb gan y Cyngor Sir.
- d. Ebost wedi ei dderbyn gan Aloma Wheway ynglun a chyflwr rhai o'r manau cyhoeddus yn y pentre yn enwedig ger y seddi ar Ffordd Abergele. Yr ardal wedi mynd yn hynod o fler, a unigolyn wedi mynd ar lawnt ei hun i dacluso yr holl chwyn a gor dyfiant. Angen cael cynllun yn ei le i sortio y darn yma bob blwyddyn. Ma hefyd fotobeic yn parcio yn rhwystro i fobol fynd at y fainc.
- e. Daethpwyd ac item i fyny ynglun a cael mwy o gyfarpar chwaraen i blant ar y cae chwarae yn Betws, yn enwedig ar gyfer y plant ieuengaf. Gan fod y cae chwarae yn perthyn i Gyngor Conwy fe fyddai yn well gofyn i'r Cyngor yn gyntaf os oes modd cael ychwanegiant i'r cyfarpar presennol. Hwyrach y byddai'n bosib defnyddio arian o ffynhonnau eraill i gyd fynd gyda unrhyw roddiad fyddai'n dod gan y Cyngor.

- f. Daeth trychinebau'r Ywcræen i sylw ac fe oedd cynhigion i roi arian i elusenau fel y Groes Goch ayyb. Cynigwyd edrych ar elusen Senedd Cymru i weld os oedd hwnnw yn un mwy addawol. Ac hefyd i ddechrau meddwl am un neu ddau o adeiladau neu gartrefi ble y byddai'n bosib ymgartrefu rhai o'r teuluoedd a fyddai yn dod fel ffoaduriaid i'r wlad yma. Pawb i feddwl yn ddwys ar ba ffordd y fyddai'n orau i roi cefnogaeth i'r bobol yma.
- g. Er mwyn cynwysiedigaeth, mae angen edrych ar ffordd o alluogi aelodau o'r Cyngor gymeryd rhan yn y cyfarfodydd yn rhithiol pe baent am unrhyw reswm yn methu bod yno mewn person. Y Clerc i edrych i mewn i'r peth.
- h. Mae'n bosib na fyddai'r Cadeirydd yn medru mynychu y pwyllgor mis nesaf. Felly cytunnodd Hefin Williams gymeryd y gadair ar y 4ydd o Ebrill 2022.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall fe ddaeth y cyfarfod i ben am 8.55y.h.

CADEIRYDD.....DYDDIAD.....